**Pecyn Cymorth Cyfathrebu**

Isod mae rhywfaint o gynnwys defnyddiol am y fenter **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** i chi ei rannu gyda chymuned eich ysgol.

## Dolenni a gwybodaeth ddefnyddiol

- Dolen i wefan Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion: Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion - foodsensewales.org.uk
- Dolen i bodlediad diweddar wedi'i gyflwyno gan blant o Ysgol y Dderi, ysgol sy'n cymryd rhan yn y cynllun yng Ngheredigion:
    - Podlediad Cymraeg: Lleisiau Llysiau Cymru
    - Podlediad Saesneg: Welsh Veg Voices
- Dolen i'r daflen wybodaeth Gymraeg: WVIS2025RWSA5CYM.pdf
- Dolen i'r daflen wybodaeth Saesneg: WVIS2025RWSA5ENG.pdf
- Dolen i adnoddau defnyddiol, gan gynnwys adroddiadau diweddar, ar dudalen we Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion: Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion - foodsensewales.org.uk
- Bydd dolenni i Adnoddau Addysgol hefyd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ar dudalen we Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yn ystod tymhorau'r Hydref a'r Gwanwyn: Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion - foodsensewales.org.uk

## Cynnwys ar gyfer cylchlythyr:

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid, a Chymuned yr Ysgol,

Rydym wrth ein bodd bod ein hysgol wedi cael ei dewis i gymryd rhan yn y fenter **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**, rhaglen sy'n cwmpasu Cymru gyfan ac sy'n cael ei chydlynu gan Synnwyr Bwyd Cymru sy'n anelu at gynnwys mwy o lysiau organig o Gymru ym mhrydau bwyd ysgolion cynradd ledled y wlad.

**Beth yw Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion?**

Nod y fenter hon yw sicrhau bod cynnyrch ffres, lleol ac organig yn cael ei gynnwys mewn cinio ysgol. Gan weithio gyda phartneriaid a rhwydwaith o dyfwyr brwdfrydig o Gymru, mae'r rhaglen yn helpu ysgolion fel ein hysgol ni i weini llysiau lleol, organig fel rhan o'n prydau ysgol.

**Pam mae'n bwysig**

Drwy gymryd rhan, mae ein hysgol yn cyfrannu at:

- Sicrhau bod plant yn cael gwell mynediad at fwyd lleol, organig
- Cefnogi i ffermwyr a thyfwyr Cymru
- Creu systemau bwyd lleol cryfach a mwy gwydn
- Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd a chynyddu bioamrywiaeth
- Llai o ddibyniaeth ar gynnyrch wedi'i fewnforio

Yn 2022, dim ond 6% o'r llysiau a brynwyd ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru oedd yn dod o ffynonellau lleol. Mae'r fenter hon yn helpu i newid hynny—un plât ar y tro.

**Beth mae hyn yn ei olygu i'n hysgol ni**

Yn ystod tymor yr hydref 2025, bydd ein hysgol yn dechrau derbyn llysiau tymhorol o Gymru fel moron, brocoli, tomatos a chiwcymbrau. Bydd y rhain yn disodli cynnyrch confensiynol—heb unrhyw gost ychwanegol—diolch i gyllid gan y cynllun peilot **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion**.

Mae tîm arlwyo ein hawdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda chegin yr ysgol i sicrhau bod y newid yn ddidrafferth.

**Cymerwch ran**

I ddathlu'r ffaith ein bod yn cymryd rhan, mae cyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth creu poster. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth yma ***[yr ysgol i benderfynu sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu].***

Gallwch hefyd ddarllen mwy am y fenter drwy ymweld â thudalen **Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion** ar wefan Synnwyr Bwyd Cymru.

Diolch i chi am gefnogi'r fenter hon.

Dymuniadau gorau,
**[Enw Eich Ysgol]**

## Awgrymiadau am negeseuon ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

**Neges 1: Ffres a Lleol**
📷 *Syniad am ddelwedd: disgyblion yn eich ysgol sy'n mwynhau cinio'n cynnwys llysiau ffres*

**Capsiwn:**
Rydym yn falch o fod yn rhan o'r fenter #LlysiauoGymruargyferYsgolion!
Y tymor hwn, mae ein disgyblion yn mwynhau llysiau organig blasus, wedi'u tyfu'n lleol, fel moron, ciwcymbrau a brocoli fel rhan o'u cinio ysgol.

Dysgwch fwy yma: Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion - Synnwyr Bwyd Cymraeg

@synnwyrbwydcymru

**Neges 2: Creu Dyfodol Iachach**
📷 *Syniad am ddelwedd: llun o'r llysiau yng nghegin yr ysgol* 🥦🍅

**Capsiwn:**
Oeddech chi'n gwybod mai dim ond 6% o'r llysiau ym mhrydau bwyd y sector cyhoeddus yng Nghymru oedd yn dod o Gymru yn 2022? Nawr, diolch i'r cynllun #LlysiauoGymruargyferYsgolion, mae'r nifer hwn yn cynyddu ac mae ein plant yn bwyta cynnyrch ffres, tymhorol, organig sydd wedi'i dyfu yma yng Nghymru.

Darllenwch fwy am y fenter Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion yma: Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion - Synnwyr Bwyd Cymraeg

**Neges 3: Cystadleuaeth posteri**

📸 *Syniad am ddelwedd: Graffigyn y gystadleuaeth creu poster*

**Capsiwn:**

Rydym yn gofyn i ddisgyblion mewn ysgolion sy'n cymryd rhan yn y fenter #LlysiauoGymruargyferYsgolion greu poster lliwgar a hwyliog a fydd yn annog eu ffrindiau i fwyta'r llysiau sydd wedi'u cynnwys yn eu cinio ysgol, gan ddathlu sut maen nhw'n cael eu tyfu gan ffermwyr yng Nghymru.

Gofynnwch i athro/athrawes dosbarth eich plentyn sut i gymryd rhan